Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Tregarth**

**Neuadd Gymuned**
**Tregarth**
**Bangor**
**LL57 4AW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mawrth, 30 Hydref 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Tregarth wedi'i leoli mewn pentref bach rhwng Bethesda a Bangor yn sir Gwynedd, ac mae'n gweithredu o'r ganolfan gymunedol leol. Meriel Parry yw'r person cofrestredig, a Llinos Williams yw'r person â chyfrifoldeb. Mae wedi'i gofrestru i ofalu am uchafswm o 24 o blant o dan 12 oed. Mae'r gwasanaeth ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol. Mae'r clwb brecwast rhwng 08:25 a 09:00. Mae'r cylch rhwng 09:00 a 12:00 ac mae'r clwb cinio rhwng 12:00 a 12:45 neu 12:00 a 13:00. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn cynnig lleoedd Hawl i Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar, sy'n golygu ei fod yn cael ei arolygu gan Estyn hefyd.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus ac yn cael hwyl yn dysgu drwy chwarae. Mae'r staff yn groesawgar ac yn gyfeillgar wrth roi gofal. Mae'r amgylchedd dan do wedi'i addurno'n lliwgar â gwaith celf y plant neu arddangosfeydd addysgol. Mae'r amgylchedd awyr agored yn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau chwarae a dysgu i'r plant. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r arweinwyr wedi gweithio'n dda i wella'r ffordd y caiff rhyngweithio'r plant ei reoli, ac mae lefelau sŵn yn hawdd eu rheoli. Maent hefyd wedi gwella'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored drwy osod y carped yn yr ystafell chwarae i osgoi risg o faglu, symud y tarpolin o'r ardal awyr agored, gosod bachyn a gard bysedd ar y drws i'r awyr agored a symud y garreg a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel stop drws, er enghraifft. Mae'r arweinwyr bellach yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn eu cofnodi. Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i gael grant i wella'r ardal chwarae yn yr awyr agored, gan gynnig gweithgareddau ysgogol i'r plant i ddysgu drwy chwarae.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol o ran ffeiliau staff am nad oeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn cydymffurfio. O ganlyniad, rydym wedi dwyn y meysydd hyn i'w gwella i sylw'r arweinwyr.

Rydym wedi gwneud argymhellion sy'n ymwneud â'r datganiad o ddiben, adolygu gwybodaeth y staff am weithdrefnau diogelu, golchi dwylo, ffurfioli goruchwyliaeth un i un, cofnodi damweiniau a digwyddiadau, amseroedd bwyta, polisïau a chodi ymwybyddiaeth y plant o amlddiwylliannaeth.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae gan y plant yr hyder i wneud ceisiadau a lleisio eu barn. Maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn teimlo'n gyfforddus wrth fynd at y staff. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn dysgu sut i gydweithredu. Maent yn cael hwyl wrth iddynt ddysgu drwy chwarae. Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda, ond gellid darparu rhagor o gyfleoedd i wella eu sgiliau hunangymorth.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae gan y plant yr hyder i wneud ceisiadau a lleisio eu barn.

Roedd y plant wedi dweud beth roeddent yn mwynhau ei wneud drwy dynnu lluniau ohonynt eu hunain yn cymryd rhan yn eu hoff weithgareddau ar fwrdd arddangos. Roedd ganddynt yr hyder i ofyn ac ateb cwestiynau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod amser cylch a thra oeddent yn chwarae. Dywedodd un plentyn wrthym ei bod yn hoffi chwarae â'r set o ddoliau pren. Gofynnodd i'r staff a allai gael sticer, a chafodd sticer ei roi iddi am roi ei theganau heibio'n dda. Yn ystod amser byrbryd, gofynnodd y plant am fwy o ddŵr/llefrith a chwscws, ac ymatebodd y staff felly. Roedd y plant yn awyddus i ddangos eu lindysyn i ni yn y gornel ddarganfod, a gwnaethant ddweud wrthym beth roedd yn hoffi ei fwyta. Roedd un plentyn wedi tynnu llun o aelod o'r staff, a gwenodd wrth ddangos y llun o 'Auntie Llinos' i'w ffrindiau.

Darperir gofal i'r plant sy'n eu galluogi i gyfathrebu'n effeithiol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn teimlo'n gyfforddus wrth fynd at y staff.

Cafodd y plant eu canmol gan ddefnyddio iaith gadarnhaol. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd ysgrifennu, cafodd plentyn ei ganmol am ddargopïo'r llythrennau yn ei enw yn dda, ac roedd hyn wedi gwneud iddo deimlo'n dda amdano ef ei hun. Gwelwyd plant eraill yn mynd at y staff yn gyfforddus, a gwnaeth rhai ohonynt gofleidio'r aelod o'r staff. Roeddent yn ymgyfarwyddo â'r drefn ddyddiol yn dda, a oedd yn rhoi ymdeimlad o ddiogelwch iddynt. Dywedodd rhai o'r plant wrthym eu bod yn mynd i'r ysgol ar ôl cinio a'u bod yn edrych ymlaen at wneud hynny.

Mae'r plant yn cael gofal sy'n gwneud iddynt deimlo'n hapus, yn ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn dysgu sut i gydweithredu.

Roedd y plant yn dysgu sut i gydweithredu ac yn parchu'r teganau a'r adnoddau wrth iddynt eu rhoi heibio. Gwelwyd dau blentyn yn anghytuno â'i gilydd yn y gornel adeiladu wrth iddynt adeiladu tŵr. Gwnaeth y staff reoli hyn yn dda ac esbonio pam ei bod yn bwysig rhannu a chymryd tro i'r plant. Gwnaethant ysgwyd llaw, ac fe'u gwelwyd yn chwarae'n hapus yn y gornel gartref yn fuan ar ôl hynny. Wrth chwarae yn yr awyr agored, rhannodd y plant y cynwysyddion a'r offer gwahanol yn y gegin fwd, ac roeddent yn gwrtais yn ystod amser bwyta.

Darperir gofal effeithiol i'r plant sy'n eu helpu i ryngweithio'n gadarnhaol.

## 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn cael hwyl yn dysgu drwy chwarae.

Roedd y plant yn mwynhau rhoi gwisgoedd gwahanol amdanynt i chwarae yn y gornel gartref, a gwnaethant chwerthin gyda'i gilydd wrth edrych yn y drych. Roedd plant eraill yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gysylltu darnau pren y set drenau i greu trac hir ar gyfer y cerbydau. Roedd y plant yn dysgu am liwiau gwahanol wrth chwarae â brics gwahanol, a gwnaethant ymarfer cyfrif wrth adeiladu. Roeddent yn datblygu eu sgiliau echddygol manwl wrth archwilio sut roedd allweddi gwahanol yn datgloi'r clo clap ar y bwrdd cliciedau ac yn helpu ei gilydd i ddod o hyd i'r allwedd gywir. Wrth chwarae yn yr awyr agored, roedd y plant yn cael hwyl yn pedalu cerbydau gwahanol i ddatblygu eu sgiliau corfforol, ac roeddent yn awyddus i ddangos y chwaraedy pren mawr i ni. Dangosodd un plentyn y dodrefn i ni ar y tu mewn, a oedd o faint priodol iddo eistedd arnynt, a phwyntiodd at y ryg werdd a'r adnoddau â thema cartref. Roedd grŵp o blant yn datblygu'r chwarae hwn drwy ddychmygu eu bod yn paratoi prydau i'w babi-doliau cyn mynd â nhw am dro yn eu bygis. Roedd y plant yn mwynhau eu chwarae yn yr awyr agored, ac fe'u gwelwyd yn chwarae â deunyddiau naturiol y gellir eu hailgylchu i'w helpu i ymarfer defnyddio eu synhwyrau.

Darperir gweithgareddau diddorol i'r plant i'w helpu i ddysgu drwy chwarae.

## 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda, ond gellid darparu rhagor o gyfleoedd i wella eu sgiliau hunangymorth.

Defnyddiodd y plant y sinc a oedd ar gael iddynt yn yr ystafell chwarae i olchi eu dwylo'n annibynnol ar ôl gwaith crefft a chwarae yn yr awyr agored. Gwnaethant roi eu cotiau a'u hesgidiau eu hunain amdanynt cyn mynd allan i chwarae heb lawer o gymorth. Yn ystod amser byrbryd, cafodd mwy o fwyd ei weini i'r plant, ond gellid eu hannog i helpu eu hunain er mwyn datblygu eu sgiliau hunangymorth a sgiliau cymdeithasol. Yn ystod amser cinio, gwnaethant agor cynnwys eu pecynnau bwyd o gartref yn annibynnol a mwynhau'r achlysur cymdeithasol hwn. Rhoddwyd amser i'r plant orffen eu cinio yn eu hamser eu hunain, ac ni chawsant eu rhuthro. Roedd rhai o'r plant yn hyderus ac yn hapus i fod yr unig rai a oedd yn dal i fwyta, a gwnaethant fwynhau gwylio eu ffrindiau'n chwarae.

Mae'r plant yn cael gofal sy'n eu galluogi i ddatblygu eu hannibyniaeth yn hyderus, ond byddai ystyried cyfleoedd pellach yn datblygu eu sgiliau hunangymorth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, ond byddent yn cael budd o adolygu rhai o'u gweithdrefnau. Maent yn rheoli'r rhyngweithio yn gyson ac yn deg. Mae'r staff yn hwyluso gweithgareddau diddorol i ddatblygu dysgu'r plant ac yn rhoi gofal ymatebol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, ond byddent yn cael budd o adolygu rhai o'u gweithdrefnau.

Roedd y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau; roeddent yn hyrwyddo brwsio dannedd a bwyta'n iach. Roedd dŵr yfed ar gael yn barod drwy'r dydd er mwyn sicrhau bod y plant yn cael digon i'w yfed. Rhoddwyd sgôr o 5 (da iawn) i'r gwasanaeth gan yr asiantaeth safonau bwyd yng Ngwynedd ym mis Medi 2017, ac mae'n rhan o fenter cyn-ysgol iach yr awdurdod lleol i annog a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Yn ystod amser cinio, gwnaethom dynnu sylw'r staff at blentyn a oedd wedi gadael y bwrdd ac a oedd yn dal i fwyta wrth gerdded o amgylch yr ystafell chwarae. Mae angen i'r staff fod yn fwy gwyliadwrus wrth oruchwylio'r plant yn ystod amser cinio a sicrhau nad yw'r plant yn gadael y bwrdd tra byddant yn dal i fwyta er mwyn sicrhau bod y risg o dagu yn cael ei dileu. Pan wnaethom ofyn i'r staff pa weithdrefnau y byddent yn eu dilyn os oedd ganddynt bryderon ynghylch plentyn yn eu gofal, roedd eu gwybodaeth yn sylfaenol. Byddai'r staff yn elwa o adolygu'r gweithdrefnau diogelu / amddiffyn plant i'w galluogi i ddatblygu eu hyder a'u gwybodaeth am yr hyn y byddent yn ei wneud os oedd ganddynt bryderon. Roedd y staff yn goruchwylio'r plant yn dda wrth fynd gyda nhw i'r toiled ac yn eu hannog i olchi eu dwylo. Fodd bynnag, gwelsom fod y plant yn golchi eu dwylo gan ddefnyddio'r un dŵr â'i gilydd. Gwnaethom dynnu sylw'r staff at hyn, ac aethant i'r afael â'r mater ar unwaith. Byddai'r staff yn elwa o adolygu canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) ar olchi dwylo er mwyn sicrhau bod arferion hylendid yn cael eu gwella. Roedd gan yr aelodau o staff gymwysterau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol, a oedd yn eu galluogi i roi cymorth cyntaf yn briodol, neu ymdrin ag unrhyw faterion meddygol a allai godi. Roedd gwiriadau diogelwch tân a driliau tân wedi'u cynnal yn rheolaidd a chafodd y rhain eu cofnodi, gan helpu'r plant a'r staff i ddysgu beth oedd angen iddynt ei wneud pe bai angen gadael y safle mewn argyfwng. Roedd y staff yn annog y plant i chwarae yn yr awyr agored er mwyn iddynt ddatblygu eu sgiliau corfforol a synhwyraidd wrth fwynhau'r awyr iach.

Mae'r staff yn gwneud gwaith da wrth annog y plant i fwyta'n iach ac yfed digon, ond mae angen adolygu a gwella rhai gweithdrefnau er mwyn cadw plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio yn deg ac yn gyson.

Roedd y staff yn canmol y plant gydag iaith gadarnhaol a'u hannog i fod yn gwrtais ac ymarfer dweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch'. Nid oeddent yn brysio'r plant, gan ganiatáu iddynt gwblhau tasgau a gweithgareddau yn eu hamser eu hunain, a bod yn ystyriol o oedrannau a chyfnodau datblygu'r plant. O ganlyniad, ceir yno amgylchedd cynnes a gofalgar, lle caiff plant eu meithrin a'u cefnogi. Roedd y staff yn tawelu meddwl y plant gan roi gofal mewn modd tyner. Roeddent yn rheoli achosion o ryngweithio amhriodol a lefelau sŵn gydag amynedd a llais caredig. Roedd hyn yn arwain at ddatrys anghydfodau'r plant yn effeithiol ac yn sicrhau nad oedd y sefyllfa'n gwaethygu.

Mae'r staff yn gosod ffiniau realistig ac yn defnyddio strategaethau priodol i reoli rhyngweithio mewn modd cadarnhaol.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn hwyluso gweithgareddau diddorol i ddatblygu dysgu'r plant ac yn rhoi gofal ymatebol.

Roedd y staff yn gweithredu egwyddorion cwricwlwm y cyfnod sylfaen ac yn hyrwyddo gweithgareddau diddorol. Er enghraifft, gwelsom staff yn rhoi cymorth unigol i blant wrth iddynt archwilio gweithgaredd o'r enw 'This is me'. Roedd y staff yn helpu'r plant i gymysgu'r lliwiau cywir i greu tôn croen ar gyfer eu hunanbortread. Gwnaethant siarad â phob plentyn drwy gydol y gweithgaredd hwn a gofyn cwestiynau i'r plant wrth iddynt baentio portread ohonyn nhw eu hunain ac edrych ar eu ffoto ar lechen ryngweithiol i'w helpu gyda'r manylion. Gwnaeth y staff ryngweithio'n gadarnhaol â'r plant a'u canmol gan ddefnyddio iaith gadarnhaol. Gwnaethant hwyluso cyfleoedd iddynt gymryd yr awenau. Er enghraifft, dangosodd un plentyn i'r staff sut roedd yn gosod y dodrefn pren bach a doliau i greu golygfa gartref. Roedd y staff wedi hwyluso a chofnodi cynnydd a datblygiad y plant. Roeddent wedi nodi meysydd lle mae angen rhagor o gymorth ar y plant, ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu wrth gynllunio gweithgareddau. Gwnaeth y staff ymateb i anghenion unigol y plant yn amserol. Er enghraifft, gwnaethant newid eu dillad pan oeddent yn wlyb ar ôl chwarae yn yr awyr agored a sychu eu trwynau i wneud iddynt deimlo'n fwy cyfforddus. Yn ystod amser cylch, gofynnodd y staff i'r plant sut oeddent yn teimlo, gan eu helpu i ddysgu sut i fod yn emosiynol ymwybodol. Yn ystod amser stori, gwnaeth y staff annog y plant i ymfywiogi gyda gweithredoedd, yn ogystal â gofyn eu cwestiynau eu hunain, gan eu helpu i wneud ymholiadau a bod yn chwilfrydig.

Hyrwyddodd y staff hyder y plant drwy gynnig gweithgareddau diddorol a oedd yn cynnal diddordeb y plant am gyfnodau priodol o amser, yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu.

# 3. Yr Amgylchedd

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a'i fod yn addas at y diben. Maent yn sicrhau bod teganau ac adnoddau o ansawdd priodol ac yn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau dysgu a chwarae i'r plant.

## Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Roedd gan yr arweinwyr system newydd ar gyfer rheoli mynediad i'r safle, ac roedd cofnod o ymwelwyr yn cael ei gadw. Roedd hyn yn helpu'r arweinwyr i nodi ac olrhain yr ymwelwyr gwahanol sy'n mynd i'r gwasanaeth yn aml. Roedd y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben. Roedd asesiadau risg wedi'u cynnal a'u hadolygu ym mis Ebrill 2018 er mwyn sicrhau bod risgiau posibl i'r plant wedi'u nodi a'u dileu. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau a gwnaethant oruchwylio'r plant yn dda yn ystod gweithgareddau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, ac mae'r staff yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n golygu bod y plant yn cael eu goruchwylio'n briodol i sicrhau eu diogelwch.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd cefnogol a oedd yn rhoi ystyriaeth i ddiddordebau ac anghenion unigol y plant. Roedd yr amgylchedd yn canolbwyntio ar y plentyn ac wedi'i addurno'n lliwgar â gwaith celf y plant ac arddangosfeydd addysgol. Roedd themâu ychwanegol yn canolbwyntio ar lesiant y plant ac roedd arddangosfeydd yn canolbwyntio ar emosiynau, a oedd yn annog y plant i sôn am eu teimladau. Roedd yr arweinwyr hefyd wedi sicrhau bod gan y plant le i roi eu heiddo personol gan wneud iddynt deimlo eu bod yn perthyn yno. Roedd y celfi yn briodol ar gyfer cam a datblygiad y plant ac roedd yr amgylchedd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae priodol. Roedd y teganau a'r adnoddau yn cael eu storio ar lefel isel, ac wedi'u labelu, a olygai bod y plant yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd addas i ddiwallu anghenion y plant sy'n cael gofal.

## 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod teganau ac adnoddau o ansawdd da ac yn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau dysgu a chwarae i'r plant.

Roedd yr ystafell chwarae dan do wedi'i haddurno'n lliwgar, ac roedd adnoddau synhwyraidd i helpu'r plant i ymarfer defnyddio eu synhwyrau, gyda rhai teganau yn adlewyrchu ein cymdeithas ehangach. Dylid rhoi ystyriaeth i ddatblygu'r maes hwn er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. Roedd yr arweinwyr wedi gwneud yn siŵr bod y plant yn gallu symud yn rhydd o gwmpas y lle er mwyn dewis y gweithgareddau oedd o ddiddordeb iddynt. Roeddent wedi sicrhau bod modd i'r plant gael gafael ar y cyfarpar a'r teganau o ansawdd da a oedd ar gael iddynt. Roedd yr ardal chwarae yn yr awyr agored yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau ysgogol i'r plant. Er enghraifft, gwelsom blant yn ymgolli'n llwyr mewn gemau chwarae dychmygus yn y gegin fwd, gan wneud pasteiod a chodi symiau mawr o fwd a chymysgu'r cynnwys â ffyn. Dangosodd plant eraill i ni sut y gallent arllwys dŵr o fwcedi i lawr twndis y wal ddŵr a gwylio'r dŵr yn llifo i lawr y cafnau i mewn i'r cynhwysydd mawr ar y gwaelod. Roedd digon o adnoddau ar gael yn yr ardal chwarae dan do a'r ardal chwarae yn yr awyr agored i sicrhau bod gan y plant amrywiaeth a dewis diddorol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod plant yn gallu gwneud dewisiadau diddorol ac ysgogol o amrywiaeth o deganau ac adnoddau o ansawdd da sydd ar gael.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol, ac mae ganddynt system ar gyfer adolygu ansawdd y gofal. Maent yn rheoli'r staff yn dda, ond nid oedd yr holl wybodaeth ofynnol ar gael yn ffeiliau'r staff i fodloni'r gofynion cyfreithiol. Mae'r arweinwyr yn meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol.

Roedd yr arweinwyr wedi gweithredu i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd yn yr arolygiad blaenorol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant. Nid yw'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol fel y nodir yn safon un y safonau gofynnol cenedlaethol. Drwy wneud hynny, byddai'n sicrhau bod gan rieni yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch y gofal a gynigir. Roedd damweiniau a digwyddiadau'n cael eu cofnodi, ond nid oedd pob un o'r rhain wedi'i lofnodi gan y staff a'r rhieni. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith, ond nid oedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod y polisi diogelu/amddiffyn plant yn cynnwys rhif ffôn y tîm diogelu yn yr awdurdod lleol er mwyn cysylltu â'r tîm hwnnw'n ddi-oed os oedd angen.

Mae'r arweinwyr wedi gwneud gwelliannau, ond mae angen rhoi sylw i rai meysydd.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan yr arweinwyr system ar gyfer gwerthuso ansawdd y gofal.

Roedd yr arweinwyr wedi llunio adroddiad a oedd yn adolygu ansawdd y gofal. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at ymatebion y rhieni, y plant a'r ddwy ysgol gynradd sy'n ysgolion bwydo. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn gadarnhaol. Roedd yr arweinwyr yn gweithredu i fynd i'r afael â sylwadau rhai rhieni a hoffai gael rhagor o wybodaeth am y gweithgareddau y mae eu plant yn cymryd rhan ynddynt. Er enghraifft, roedd yr arweinwyr wedi derbyn y sylwadau hyn ac yn diweddaru cyfrif caeedig y gwasanaeth ar y cyfryngau cymdeithasol â lluniau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Roeddent hefyd wedi trefnu noson rhieni er mwyn rhannu gwybodaeth am gynnydd a datblygiad y plant. Roedd yr arweinwyr wedi adolygu'r argymhellion a wnaed yn flaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn a oedd yn ymwneud â gwella'r ardal awyr agored a chreu ardaloedd dysgu mwy diffiniedig er mwyn datblygu dysgu'r plant.

Mae'r arweinwyr yn gweithredu i fynd i'r afael â sylwadau'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant.

## 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff yn dda.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gan y staff rolau a chyfrifoldebau diffiniedig a'u bod wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf. Roeddent wedi sicrhau bod gan y staff gymhwyster cymorth cyntaf cyfredol a oedd yn briodol ar gyfer oedran y plant sy'n cael gofal. Er bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymwybyddiaeth o ddiogelu, roedd eu gwybodaeth yn sylfaenol. Gwnaethom edrych ar ffeiliau tri aelod o'r staff, ond nid oedd y rhain yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn cydymffurfio. Dywedodd yr arweinwyr a'r staff wrthym fod staff yn cael eu goruchwylio'n anffurfiol yn ôl yr angen ond nid oedd hyn yn cael ei gofnodi na'i wneud yn rheolaidd. Dylai'r arweinwyr ystyried ffurfioli'r oruchwyliaeth unigol at ddibenion cofnodi ac er mwyn cynnig cyfle i'r staff drafod eu lles, materion yn ymwneud ag ymarfer, datblygu, anghenion hyfforddi a syniadau i wella'r gweithgareddau a'r gofal a ddarperir i'r plant. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cael arfarniadau ac roedd y rhain wedi'u cofnodi. Roedd cymarebau staffio yn briodol ar y diwrnod, ond byddai rhagori ar y safonau yn sicrhau bod profiadau'r plant yn cael eu cyfoethogi. Gwnaethom edrych ar gofnodion tri phlentyn, ac roedd y rhain yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Mae'r arweinwyr yn rheoli ac yn cefnogi'r staff yn briodol ond mae angen gwella rhai meysydd.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn meithrin partneriaethau cadarnhaol.

Gwnaethom siarad â'r rhieni, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a ddarperir i'r plant. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn gweithio'n dda gyda'r ddwy ysgol gynradd yn yr ardal, sy'n ysgolion bwydo, er mwyn sicrhau bod y plant yn symud yn hapus o'r gwasanaeth i'r ysgol. Maent yn annog y plant i ymgysylltu â'r gymuned leol, ac maent wedi trefnu teithiau cerdded natur er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o'r tymhorau newidiol a'u heffeithiau ar y byd naturiol o'u cwmpas.

Mae'r arweinwyr yng Nghylch Meithrin Tregarth yn meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a'r gymuned er mwyn gwella profiadau'r plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

**Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn**

Gwnaethom hysbysu'r person â chyfrifoldeb nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliad canlynol:

**Cafwyd gennym nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â *Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010*, Rheoliad 28, sy'n ymwneud â'r canlynol: Addasrwydd Gweithwyr:** nid oedd y person cofrestredig yn gallu dangos bod yr holl wybodaeth ofynnol ar gael yn ffeiliau'r staff er mwyn darganfod addasrwydd y staff a chydymffurfio.

Ni wnaethom roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, gan na wnaethom ddod o hyd i dystiolaeth ar yr achlysur hwn bod hyn yn effeithio ar lesiant y plant. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai'r arweinwyr ystyried:

- Rhoi mwy o wybodaeth yn y datganiad o ddiben gan ddefnyddio'r is-benawdau yn safon un y *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Rheoleiddio Gofal Plant i blant hyd at 12 oed* fel canllaw;

- adolygu gwybodaeth y staff am weithdrefnau diogelu a sicrhau bod y polisi amddiffyn/diogelu plant yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu yn yr awdurdod lleol;

- adolygu'r gweithdrefnau golchi dwylo yn unol ag *Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) Meithrinfeydd, Gwarchodwyr Plant a Grwpiau Chwarae: Canllaw Cymru Gyfan* Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) a chwblhau'r offeryn archwilio rheoli heintiau ar gyfer lleoliadau'r blynyddoedd cynnar;

- datblygu annibyniaeth yn ystod amseroedd bwyta, rhoi cyfleoedd i'r plant helpu eu hunain a sicrhau nad yw'r plant yn gadael y bwrdd pan fydd eu ceg yn llawn er mwyn osgoi'r risg o dagu;

- ffurfioli'r oruchwyliaeth unigol, cadw cofnod o'r trafodaethau hyn â phob aelod o'r staff ynghylch eu perfformiad, anghenion hyfforddi a syniadau i wella'r gweithgareddau a'r gofal a ddarperir i'r plant;

- gwneud yn siŵr bod y staff a'r rhieni yn llofnodi'r cofnodion o ddamweiniau a digwyddiadau plant;

- datblygu Amlddiwylliannedd er mwyn helpu i ddatblygu dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ddydd Mawrth, 18 Medi 2018 rhwng 09:00 a 13:40;

Gwnaethom y canlynol:

- Archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir, y teganau a'r cyfarpar;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio adnodd SOFI2 er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant, un rhiant, y person â chyfrifoldeb a dau aelod o'r staff;
- rhoi adborth i'r person â chyfrifoldeb.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person Cofrestredig** | **Meriel Parry** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Llinos Williams** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Ystod oedran y plant** | **O dan 12 oed** |
| **Oriau agor** | **O ddydd Llun i ddydd Gwener: (yn ystod y tymor)**<br><br>**Clwb Brecwast: 08:25 – 09:00**<br><br>**Cylch: 09:00 – 12:00**<br><br>**Clwb Cinio: 12:00 – 12:45 neu 12:00 – 13:00** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **23 Medi 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu** | **18 Medi 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:**<br>Mae'r gwasanaeth yn cael ei arolygu gan Estyn hefyd. | |